# DAVIES, JOHN (1787 - 1855), saer maen a cherddor

**Enw:** John Davies
**Dyddiad geni:** 1787
**Dyddiad marw:** 1855
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** saer maen a cherddor
**Maes gweithgaredd:** Diwydiant a Busnes; Cerddoriaeth
**Awdur:** Robert David Griffith

Ganwyd yn y Banwen, Treforus, Morgannwg, 13 Tachwedd 1787. Cafodd fanteision addysg yn fachgen a daeth yn ysgolhaig da. Yn 14 oed dysgwyd ef i chwarae ar y dwlsimer gan   r o Lundain a letyai yn ei gartref. Saer maen ydoedd wrth ei alwedigaeth, a cherfiai ar gerrig beddau gyda'r nos ar ôl darfod ei ddiwrnod gwaith. Yn 24 oed priododd, ac adeiladodd dy iddo ei hunan yn Treboeth ger Abertawe, a galwodd y t   yn Godre Parc. Yn 30 oed dechreuodd astudio cerddoriaeth, a daeth yn gerddor lled dda. Cyfansoddodd lawer o anthemau a thonau. Yn *Lleuad yr Oes* am Mehefin 1827 ymddangosodd y dôn a geir yn ein casgliadau tonau dan yr enw ' Gethsemane ' 9-8, yr hon a drefnwyd yn 8 gan R. H. Pritchard, y Bala. Ceir tonau eraill o'i waith yn *Haleliwia Drachefn*, *Llwybrau Moliant*, a'r *Caniedydd Cynulleidfaol*; dengys ei donau ei fod yn meddu athrylith gerddorol. Bu farw 27 Ebrill 1855 yn Llanelli, a chladdwyd ef ym mynwent Mynydd-bach.

## Awdur

**Robert David Griffith**, (1877 - 1958)

## Ffynonellau


*Cronicl y Cerddor*, Mehefin 1883

M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890), Hydref 1890

Edward Jones, *Rhestr gyda nodiadau byrion, o Enwogion Cymreig o 1700 i 1900* (1908)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733374


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu